

CYFARFOD SWYDDOGOL O GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ddydd Llun 19 Mehefin 2017 am 10.00am ym Mhencadlys y Cyngor, Cwm Clydach.

Dyma Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-

G. Hopkins – Cadeirydd

R. Bevan J. Rosser S. Rees-Owen

Dyma'r Swyddogion oedd yn bresennol

Mrs W. Edwards – Pennaeth Addysg yn y Gymuned

Mr S. Gealy – Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

Ms E. Siôn – Menter Iaith

Ms E. Thomas – Cyfarwyddyd Dros Dro, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Mr G. Colombo De Menezes – Swyddog Graddedig

Ms K. Herbert – Swyddog Graddedig

Ms Hannah Williams – Swydd Busnes y Cabinet

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Achubodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu Aelodau newydd, a'r ddau Swyddog Graddedig, i gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg. Daeth ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. Webber a'r Ysgrifennydd i'r Cabinet, Mr C. Hanagan.

2. DATGANIAD O FUDDIANNAU

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

3. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2017 yn gofnodion cywir o'r cyfarfod yn dilyn y newid canlynol:

26. Strategaeth Hybu'r Gymraeg – Paragraff 13, yn cyfeirio at amser pan fydd y boblogaeth yn fwy craff, i'w ddileu, a'i ddiwygio i 'Esboniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu'r Economi, Twristiaeth, a Chynllunio mor anodd yw datblygu adeiladau newydd yn sgîl diffyg tir a newid demograffig.'

4. ADRODDIAD CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG 2016-2017 – I'W GYFLWYNO I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG

Achubodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned ar y cyfle i ddarparu Aelodau newydd y Grŵp Llywio gefndir Deddf yr Iaith Gymraeg, y Safonau sydd newydd gael eu cyflwyno, a gwaith Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.

Esboniodd y Swyddog fod Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 wedi gwneud y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg yng Nghymru; a bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi pasio Mesur y Gymraeg (Cymru) yn 2011 er mwyn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.

Yn 2015 fe gyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Safonau'r Gymraeg, wedi'u sefydlu gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Esboniodd y Swyddog fod gan y Cyngor ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hyn, neu efallai y caiff dirwy ei roi yn dilyn pob cwyn wedi'i chadarnhau. Cafodd aelodau o'r Grŵp Llywio eu hatgoffa fod y Cyngor yn herio 14 o'r Safonau yn sgîl problemau gydag amserlenni, ayyb. O ganlyniad i hyn, roedd y Comisiynydd wedi ymestyn rhai terfynau amser penodol hyd at fis Mawrth 2018. Esboniodd y Swyddog fod chwe chyfieithydd ar y pryd wedi cael eu hyfforddi er mwyn lleddfu'r pwysau ar y gwasanaeth, a bod y Cyngor yn dal wedi ymrwymo i hybu'r Gymraeg, ac i beidio â'i hystyried yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Esboniodd y Swyddog fod y Cabinet wedi cymeradwy'r Cynllun Gweithredu yn 2016, gan ddiolch i Fforwm Iaith am ei waith partneriaeth helaeth wrth sicrhau bod y safonau yn cael eu bodloni, a gan ddiolch hefyd i'r holl Aelodau, gan roi sylwadau i'r perwyl nad yw'r Gymraeg yn wleidyddol, ond yn thema drawsbleidiol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

Hysbyswyd aelodau'r Grŵp Llywio mai'r Adroddiad o'u blaen yw ail adroddiad monitro blynyddol y Cyngor o ran y ffordd y mae wedi cydymffurfio â'r Safonau Statudol. Esboniwyd bod Safonau 158, 164 a 170 o'r Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio Adroddiad mewn perthynas â bob blwyddyn ariannol sy'n sail i'r ffordd mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi, a'r safonau gweithredu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ei Hadroddiad, gan wneud y sylw ei bod yn bleser arbennig gweld cynnydd yn cael ei wneud ym mhob rhan o Feysydd gwasanaeth y Cyngor. Holodd y Cadeirydd y cwynion a ddaeth i

law yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17, ac, yn benodol, y rheiny yn ymwneud â gwersi nofio. Hysbysodd y Swyddog, y bu tri ymchwiliad:-

1. Gwersi Nofio a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg
2. Un ymateb e-bost allan o'r swyddfa heb ei gyfieithu
3. Ymateb e-bost wedi'i gyhoeddi drwy gyfrwng y Saesneg

O ran ystyried gwersi nofio, esboniodd y Swyddog fod y Gwasanaeth Hamdden wedi bod yn rhagweithiol yn ei ymateb i'r gŵyn, gyda chyfarfodydd cadarnhaol yn cael eu cynnal. Esboniwyd bod ymdrechion i ddatblygu sgiliau iaith y staff yn parhau ond nad oedd pob un ohonyn nhw, er gwaetha'r modd, â chymwysterau llawn. Mae hysbyseb barhaus wedi'i rhyddhau ar gyfer Hyfforddwy'r Nofio Cymraeg eu hiaith, ond hyd yn hyn does dim un cais wedi dod i law. Fe benderfynwyd o ganlyniad i hyn gysylltu ag ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn datblygu rhaglen ar gyfer rhai 16-18 oed, a gâi eu hyfforddi a'u talu i gyflwyno gwersi nofio.

Cyfeiriodd y Cynghorydd S. Rees-Owen y Grŵp at dudalen 51 o'r Adroddiad, lle dangosid gwybodaeth Hysbysebu; gofynnai pa swyddi yn y Cyngor na fydden nhw'n gofyn am sgiliau Cymraeg. Esboniodd y Swyddog taw mater ar gyfer pob gwasanaeth unigol yw hwn, ond fe ddarparodd enghraifft o staff mewnlol yn yr Adran Gyllid, nad oedden nhw o bosibl angen sgiliau iaith Gymraeg, ond ei fod yn bosibl efallai y bydd angen i staff sy'n gweithio gyda'r cyhoedd neu wrth y dderbynfa allu sgwrsio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nododd y Cynghorydd hefyd nad oedd sôn am nifer y Cymry Cymraeg ymhlith yr Aelodau Etholedig. Fe hysbysodd Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg nad oedd hyn wedi'i gynnwys gan nad oedd yn un o ofynion y Comisiynydd. Ychwanegodd y Swyddog fod tri ar ddeg o Aelodau Etholedig ar hyn o bryd â dealltwriaeth o'r Gymraeg, a'i fod yn bleser arbennig nodi fod eraill wedi dangos diddordeb mewn dysgu.

Cyfeiriodd Ms E. Siôn, Menter Iaith, yn ôl at agwedd recriwtio y Cyngor, gan wneud y sylw fod yma gyfle i feysydd gwasanaeth ailymweld â'r broses gwneud cais, gan sicrhau bod rhagor o swyddi cyhoeddus yn cynnwys gwybodaeth am y sgiliau iaith Gymraeg oedd yn ofynnol.

Fe hysbysodd y Swyddog fod rhaid i'r Adroddiad gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2017.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am yr Adroddiad, gan wneud y sylw y dylai Adroddiadau yn y dyfodol fod yn sail i gynllun y Cyngor.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr Adroddiad

- b) Argymhell bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'i fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd cyn 30 Mehefin 2017 fan bellaf.
- c) Gwneud trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r cyhoedd bod yr adroddiad blynyddol wedi cael ei gyhoeddi.

5. HYRWYDDO'R GYMRAEG MEWN CYMUNEDAU LLEOL

Aeth y Swyddogion Graddedig, M. K. Herbert a Mr G. Colombo De Menezes ati i roi i'r Grŵp Llywio wybodaeth mewn perthynas â phrosiect yr oedden nhw'n ymgymryd ag ef er mwyn cynorthwyo'r Cyngor o ran ei ofyniad i fodloni holl safonau statudol perthnasol fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio Statudol o dan Safonau'r Gymraeg newydd 2015.

Y nod oedd, yn ôl esboniad y Swyddogion, i greu cynllun cyflenwi sy'n pennu sut y gellir mynd i'r afael â'r argymhellion sy'n cael eu gwneud o fewn maes gwasanaethau iaith Gymraeg o fewn rhaglenni trechu tlodi yn Rhondda Cynon Taf, a hynny er mwyn ategu strategaeth bum mlynedd ehangach y Cyngor ar gyfer hybu'r iaith Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

Esboniwyd fod nifer o ddulliau wedi cael eu defnyddio er mwyn casglu gwybodaeth a data mewn perthynas â defnyddwyr yr iaith Gymraeg ym mhob man ar draws Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys arolygon sgiliau staff, a thrafodaethau mewnol ac allanol.

Roedd canlyniadau'r arolwg fel a ganlyn:-

- Cafwyd cyfweiliadau â chyfanswm o 85% o aelodau o'r staff
- Mae mwyafrif helaeth (80%) wedi dweud taw ychydig neu ddim dealltwriaeth yn gyffredinol sydd ganddynt
- Dim ond 6% (pump o bobl) sydd â gwybodaeth dda, a 9% (wyth o bobl) sy'n ystyried eu hunain yn rhugl
- Cwm Cynon oedd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg (neu drigolion oedd yn eu gweld eu hunain yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r iaith)

Aeth y Swyddogion ymlaen i gyflwyno i'r Grŵp Llywio y prif faterion sy'n gysylltiedig â hybu'r iaith Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf:-

- Diffyg staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg
- Cysylltu'r iaith Gymraeg â'r Ysgol/Addysg
- Y meddylfryd nad oes angen yr iaith Gymraeg yn yr ardal hon
- Adnoddau a chyllid cyfyngedig
- Dealltwriaeth o'r Safonau a sut maen nhw'n berthnasol i'r cyrff gwirfoddol

Gan gydnabod y materion a chyfleoedd sydd wedi'u cyflwyno i gyrff a chlybiau yn Rhondda Cynon Taf, argymhellodd y Swyddogion fel hyn:-

- Dosbarthu 'pecyn gwybodaeth' i bob sefydliad/clwb gwaith er hwylustod cyfeirio a chyflenwi adnoddau am ddim
- Cynnal trafodaethau â'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid er mwyn cael gwybod rhagor am eu gweithgareddau a dysgu gan eu dulliau a thechnegau.
- Datblygu gwefan/ap/gofod a rennir ar wefan Cyngor Rhondda Cynon Taf ar gyfer aelodau pob corff gwirfoddol/clwb gwaith

Nododd y Cadeirydd fod y gwaith sydd wedi'i wneud gan y Swyddogion Graddedig wedi cydnabod angen am gydbwysedd rhwng creu galw a darparu ar gyfer galw, gan ychwanegu y byddai hyn yn fater parhaus i'w ddilyn ymlaen oherwydd demograffig Rhondda Cynon Taf.

Rhoddwyd enghraifft ddrafft o'r pecyn gwybodaeth a gâi ei ddosbarthu i gyrff a chlybiau gwaith, i aelodau'r Grŵp Llywio, gan gydnabod y byddai hyn yn adnodd defnyddiol ar gyfer cyfieithu cyflym.

Cwestiynodd y Cadeirydd gynnwys ffactorau diwylliannol yn y pecyn drafft, gan awgrymu y byddai'n fwy syml pe bai'n cynnwys cyfeiriadau mwy penodol at faterion cydymffurfio.

Cododd y Cadeirydd gwestiwn arall mewn perthynas â'r Uned Gwasanaethau Cymraeg, a'r cymorth mae'n ei gynnig, a chadarnhaodd Rheolwr Gwasanaeth Cymraeg y byddai'r Uned yn cyfieithu ar gyfer y cyrff hynny wedi'u comisiynu gan y Cyngor.

Roedd Cyfarwyddyd Dros Dro, Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi'i siomi wrth weld nifer helaeth o'r bobl fu'n destun arolwg heb hyder yn eu gwybodaeth o'r Gymraeg, ac felly wedi rhoi sgôr isel iddyn nhw'u hunain. Nododd y Cyfarwyddyd Dros Dro fod pedair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, a bod pob ysgol cyfrwng Saesneg yn cyflwyno addysg Gymraeg. Cytunodd aelodau'r Grŵp Llywio fod materion hyder yn rhan annatod o'r ffordd y bydd pobl yn eu gweld eu hunain.

Dilynodd sgwrsiau ynghylch dulliau o godi lefelau hyder yn y rheiny sy'n meddu ar wahanol alluoedd o sgiliau Cymraeg. Awgrymodd Ms E. Siôn y byddai sesiwn ymwybyddiaeth iaith fer yn ddefnyddiol yn rhan o unrhyw arolwg iaith yn y dyfodol. Byddai hyn yn caniatáu i bobl gael dealltwriaeth well o'u lefel gwybodaeth. Tawelodd S. Gealy, Pennaeth Gwasanaeth Cymraeg feddwl y Grŵp, gan nodi bod Llywodraeth Cymru wrthi'n lansio dull asesu a fydd yn fodd i ganiatáu i ddefnyddwyr hunan-asesu eu galluoedd mewn amgylchedd cyfforddus. Rhoddodd wybod hefyd fod y Gwasanaeth Cyfieithu

newydd gyflogi Tiwtor sy'n gallu cynnig gwasanaeth i'r rheiny sy'n dymuno magu eu sgiliau iaith.

Mynegodd y Cynghorydd Rees-Owen mor bwysig yw hi i'r Cyngor roi gwybod am yr holl gymorth sydd ganddo i'w gynnig i gyrff, staff a thrigolion, er mwyn iddyn nhw gael dealltwriaeth ehangach o'r cyfleoedd.

Dilynodd trafodaethau ynghylch rôl y Sector Gwirfoddol, a chofiodd y Grŵp am y dyletswyddau hynny sy'n cael eu gwahanu o ddyletswyddau'r Cyngor o dan y Cynllun Gweithredu. Hysbysodd y Swyddogion Graddedig, os yw'r corff gwirfoddol neu'r darparwydd clwb gwaith wedi'i gomisiynu gan y Cyngor, fod angen iddyn nhw gydymffurfio â'r Safonau. Ychwanegodd y Cynghorydd J. Rosser, Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, er bod y ffigurau yn isel ar gyfer defnyddwyr Cymraeg yn y Sector Gwirfoddol, fod yn eu plith agwedd gadarnhaol, a bodlonwydd dysgu.

Awgrymodd Ms E. Siôn y byddai'n ddefnyddiol pe bai rhagor o wasanaethau yn cael eu cynnig ym mhob clwb gwaith, ac y byddai Gyrfa Cymru yn ychwanegiad gwerthfawr a lleol i'r rhestr.

Cafodd trafodaethau eu cynnal eto ynghylch proses recriwtio'r Cyngor, gydag Aelodau yn nodi bod angen am ddiffiniad mwy cadarn o agwedd iaith Gymraeg y fanyleb person. Cytunodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned nad oes gan y gofynion 'hanfodol' a 'dymunol' yr un ystyr ar gyfer pob rôl a swyddogaeth. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd gofyn am sgiliau Cymraeg llafar mewn swydd derbynnydd, ond bod cyfathrebu yn Gymraeg ar bapur yn ofyniad dymunol. Cytunodd aelodau'r Grŵp Llywio fod hyn yn fater y mae angen i'r adran Adnoddau Dynol a Phenaethiaid Gwasanaethau gael dealltwriaeth gryfach ohono cyn hysbysebu swydd.

Wrth gloi, rhoddodd y Swyddogion Graddedig dawelwch meddwl i'r Grŵp Llywio y bydden nhw'n parhau â'u gwaith gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg a'r Rhaglenni Trechu Tlodi, gan gymryd i ystyriaeth y sylwadau a gafodd eu gwneud gan aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion Graddedig am eu cyflwyniad llawn gwybodaeth, gan awgrymu y dylen nhw ddychwelyd i gyfarfod o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn y dyfodol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd sy'n cael ei wneud.

***Safodd aelodau'r Grŵp Llywio am 11.00am am funud o dawelwch er mwyn cofio dioddefwyr tân Tŵr Grenfell.**

Cododd y Cynghorydd S. Rees-Owen, a hithau'n un o aelodau newydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, nifer o gwestiynau mewn perthynas â'r

trefniadau cyfieithu newydd ar gyfer cyfarfodydd o Bwyllgorau'r Cyngor. Hysbyswyd y Cynghorydd y trefnir bod offer cyfieithu ar gael ym mhob cyfarfod perthnasol yn y dyfodol, heb fod angen rhoi gwybod ymlaen llaw.

6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Hysbysodd y Cadeirydd fod cyfarfod nesaf Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg i fod i ddigwydd ddydd Mawrth 14 Tachwedd 2017, ar yr amod nad oes angen cyfarfod ar ddyddiad cynharach.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10am

Y Cynghorydd G Hopkins

Cadeirydd